**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/PO/0196/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

23 Ebrill 2025

Annwyl Buffy,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill yn ceisio eglurhad ar ddau bwynt o'm llythyr blaenorol a'm Datganiad Llafar mewn perthynas â'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol a'r Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol.

1. **Dyddiad cyhoeddi'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol:**

Gallaf gadarnhau ar adeg ymchwiliad y Pwyllgor i ddiwygio gwasanaethau plant, mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd cyhoeddi'r Fframwaith erbyn diwedd 2023. Yn ystod 2023, cynhaliwyd trafodaethau a gweithgarwch ymgysylltu helaeth, a oedd yn golygu bod Fframwaith drafft yn ei le yn barod i'w rannu at ddibenion ymgysylltu pellach yn gynnar yn 2024, er nad oedd fersiwn derfynol ohono wedi ei gyhoeddi. Roedd angen gwneud gwaith helaeth a pharhau i ymgysylltu yn ystod 2024 yn sgil yr amrywiaeth o faterion a godwyd. Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar y Fframwaith ers fy llythyr diwethaf ym mis Ionawr, a byddwn ni'n cyhoeddi'r Fframwaith ddiwedd mis Ebrill. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto pan fyddwn yn ei gyhoeddi. Rwy'n ymwybodol bod hyn wedi cymryd mwy o amser nag yr oeddem wedi gobeithio, ond roedd yn bwysig inni sicrhau bod parodrwydd i gyfranogi ac y bydd y gwaith allweddol hwn yn camu yn ei flaen.

2. **Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol**

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r gwerthusiad

Mae'r gwerthusiad o'r cynllun peilot yng Nghymru, sef yng Nghaerdydd a'r Fro, wedi bod o ddiddordeb mawr i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn parhau i gadw golwg ar y datblygiadau ehangach sy'n digwydd mewn perthynas â Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ledled y DU, er mwyn dysgu cymaint â phosibl am y model. Rydym wedi cysylltu â noddwyr a Chadeiryddion Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol ynghylch gwerthusiad y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, ac wedi trafod y casgliadau gyda Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru. Roedd y gwerthusiad yn nodi nifer o elfennau positif, a chafodd gweithgor ei sefydlu i ystyried sut y gallai'r hyn a ddysgwyd gael ei ddefnyddio ar draws Cymru gyfan; a sut y byddai Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn cydweithio â gwasanaethau eraill sydd ar waith yng Nghymru. Bydd y gweithgor yn adrodd yn ôl yn yr haf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Asesiad i weld a oedd y cynllun peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn darparu gwerth am arian

Ariannwyd y cynllun peilot dwy flynedd ar gyfer Caerdydd a'r Fro gan Lywodraeth Cymru er mwyn dysgu gwersi a fyddai'n helpu i weithredu model y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Adroddir ar yr hyn a ddysgwyd o'r peilot yng ngwerthusiad CASCADE a oedd yn canolbwyntio ar weithredu peilot Caerdydd a'r Fro, sef sut yr oedd yn gweithio; beth oedd y profiad ohono yn y cyd-destun; beth oedd y dystiolaeth ddangosol o ran ei effeithiau; a pha mor addas ydyw ar gyfer ei gyflwyno a'i werthuso'n ehangach. Nid oedd y gwerthusiad yn werthusiad o effaith, nac yn cynnwys dadansoddiad economaidd, felly nid oedd gwerth am arian yn ystyriaeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiad "The Case for Investment" gan y Ganolfan Arloesi yn maes Cyfiawnder yn canolbwyntio ar werth am arian model y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn fwy cyffredinol. Mae'r adroddiad yn dangos bod pwynt cydbwysedd ar gyfer awdurdodau lleol yn digwydd yn yr ail flwyddyn gweithredu, ac mae'n nodi arbedion rhagamcanol o'r gwahanol opsiynau ar gyfer y llywodraeth ganolog.

A oes cynlluniau mewn perthynas â pheilot y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ar gyfer gweddill tymor y Senedd

Mae'r peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro wedi dod i ben, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar ei gyfer yn ystod gweddill tymor y Senedd. Fel y soniais o'r blaen, mae gweithgor Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn edrych ar y llysoedd hyn, ond mae hefyd yn ystyried y model yn ehangach yng nghyd-destun Cymru.

Mae'r gweithgor yn cydweithio'n greadigol gydag asiantaethau eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn, gan gynnwys y rheini mewn rhannau eraill o'r DU, i edrych ar y posibiliadau o ran symud o achosion Llys gwrthwynebol i weithio gyda theuluoedd mewn modd sy'n cael ei lywio gan ddealltwriaeth o drawma.

Yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud â chefnogi rhieni yn ystod achosion gofal ac edrych ar fodel y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan i edrych ar y seilwaith sy'n cefnogi rhieni yn ystod y cyfnod cyn achosion, a'r plant ar gyrion gofal. Rydym yn bwriadu cynnal gweithdy dwy ran gydag awdurdodau lleol a phartneriaid ehangach, a fydd yn ystyried yr arferion da sydd eisoes ar waith, a sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau a strwythurau'n darparu cymorth gwell ar gyfer plant a theuluoedd, er mwyn lleihau nifer y teuluoedd sy'n dod yn rhan o achosion llys cyfraith gyhoeddus a sicrhau bod llai o blant yn dod i mewn i ofal yr awdurdod lleol.

Erbyn diwedd tymor y Senedd, rwyf am fod mewn sefyllfa i sicrhau bod argymhellion clir yn ogystal â llwybr ar gyfer newid.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care